

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu

[Dirybudd]

Grŵp Gofal Iechyd Ludlow
Street: St Peter's Hospital,
Wardiau: Brecon, Raglan
ac Upper Raglan

17 – 19 Chwefror 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Methodology	6
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	8
4. Crynodeb.....	9
5. Canfyddiadau	10
Safonau Craidd	10
Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl	17
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	19
6. Y Camau Nesaf	20
Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth ar ran Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u penodi'n awdurdod cofrestru dros Gymru trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- ddiogel
- derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial

- gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodology

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau gydag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaeth
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau er mwyn amddiffyn oedolion agored i niwed
- Trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyriaeth o ansawdd bwyd

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad iechyd meddwl ac anabledd dysgu dirybudd â St Peter's Hospital, Casnewydd, gyda'r nos ar 17 Chwefror 2015 a thrwy'r dydd ar 18 a 19 Chwefror 2015.

Cofrestrwyd ysbyty St Peter's Hospital gydag AGIC yn gyntaf ym mis Ionawr 2014, ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu llety i 33 o gleifion o fewn tair uned ar wahân. Roedd yr ysbyty wedi'i gofrestru cyn hynny o dan yr enw Llanbedr Court.

Uned un rhyw gydag 18 gwely ar gyfer gwrywod yn unig oedd ward Brecon ar adeg ein harolygiad. Uned un rhyw gyda deg gwely oedd ward Raglan, ac uned un rhyw gyda phum gwely oedd ward Upper Raglan, gyda'r ddwy ward ar gyfer benywod yn unig ar adeg ein harolygiad. Roedd yr unedau i gyd wedi'u cofrestru'n unedau un rhyw, a gallant newid rhwng bod yn rhai ar gyfer gwrywod neu fenywod, yn dibynnu ar ofynion y grŵp o gleifion ar y pryd.

Mae ysbyty St Peter's Hospital yn darparu gwasanaeth ar gyfer pobl sydd wedi cael diagnosis o anhwylder meddyliol organig, dementia, neu niwed a gafwyd i'r ymennydd, a allai gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Yn ystod yr arolygiad tri diwrnod, adolygwyd tair ward gennym, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Roedd ein harolygiad o ysbyty St Peter's Hospital ym mis Chwefror 2015 yn ymweliad cadarnhaol, a nodwyd bod nifer o feysydd o arfer nodedig yn cael eu gweithredu. Gwnaed ymdrech fawr i greu amgylchedd gyda chynllun oedd yn addas i gleifion â dementia, a nodwyd bod yr ysbyty wedi'i addurno'n gyffredinol i safon dda a'i fod yn addas i'r grŵp cleifion. Fodd bynnag, nodwyd bod difrod wedi'i wneud i'r dodrefn, gosodiadau a ffitiadau oherwydd ymddygiad un claf ar ward Upper Raglan, a bod hynny wedi effeithio ar y cleifion eraill ar y ward.

Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad ar y noson gyntaf, amlygwyd nad oedd yr Uwch Nyrs ar Sifft (SNOS) yn gallu nodi gwybodaeth hanfodol yn gyflym ynglŷn â'r grŵp cleifion oedd yn derbyn gofal yn ysbyty St Peter's Hospital.

Ystyriwyd bod y gweithdrefnau oedd wedi'u sefydlu ar gyfer recriwtio staff newydd yn llym, ac roedd hyn yn golygu bod y staff nyrsio a'r staff cymorth o safon uchel. O ganlyniad, dywedodd y staff fod gwaith tîm da yn digwydd ym mhob ward. Yn ogystal, roedd cyfleoedd hyfforddi da ar gael i'r staff, ac roedd yr ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol yn gadarnhaol, gan ddangos canran uchel o gydymffurfio o fewn yr ysbyty.

Roedd y cyfathrebu a'r cysylltiadau wedi datblygu'n dda trwy gydol yr ysbyty, a dywedodd y staff fod yna amgylchedd democrataidd lle roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu safbwyntiau'n cael eu parchu.

Roedd bloc gweithgareddau penodol ar gael yn ysbyty St Peter's Hospital, a oedd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn addas i'r grŵp cleifion.

Gwnaed ymdrech fawr i sicrhau bod y profiad bwyta yn rhan o'r gofal therapiwtig. Mae dietegydd a therapydd iaith a lleferydd yn gweithio gyda'r staff a'r cleifion i asesu anghenion unigol cleifion. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen sydd â lluniau mawr arni, ac mae darparwr arlwygo arbenigol yn darparu prydau bwyd arbennig sy'n addas i anghenion unigol y cleifion.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Ward Brecon

Uned ar gyfer dynion gyda 18 gwely sengl yw ward Brecon, ac mae ar y llawr daear. Roedd y dodrefn, a'r gosodiadau a ffitiadau yn y ward drwyddi draw wedi'u cynllunio a'u gosod i ddarparu amgylchedd oedd yn addas i gleifion â dementia. Roedd drws ystafell wely pob claf yn unigryw er mwyn hwyluso adnabod a synnwyr cyfeiriad. Roedd yr addurniadau, y gosodiadau a'r arwyddion yn amlwg a chlir yn y ward drwyddi draw, er mwyn cynorthwyo'r cleifion a'u helpu i aros yn annibynnol. Roedd hefyd nifer o luniau wedi'u harddangos ar y waliau cymunedol, ac roedd y rhain yn addas i'r grŵp cleifion ac yn darparu cyfle iddynt hel atgofion mewn modd therapiwtig.

Roedd cyfleusterau toiled cymunedol ar y ward. Fodd bynnag, roedd un o'r powlliau toiled wedi newid lliw ac wedi staenio, ac felly roedd angen cael un newydd. Dywedwyd wrthym fod gweithwyr cynnal a chadw wedi cael eu hysbysu, ac yn ystod ein hymweliad, dywedwyd wrthym fod y materion hyn yn derbyn sylw.

Roedd lolfa/ystafell fwyta yn ward Brecon o faint priodol. Fodd bynnag, gallai fod yn anodd i'r cleifion yn y grŵp cleifion hwn wahaniaethu rhwng y ddwy ran o'r ystafell. Dywedwyd wrthym fod rheolwyr yr ysbyty'n ystyried ad-drefnu'r ystafell fel bod lolfa ac ystafell fwyta ar wahân.

Roedd lle ar gael y tu allan i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd braidd yn llwm ac nid oedd yn lle croesawgar. Yn yr ardd, darparwyd cyfleusterau ar gyfer y cleifion hynny oedd yn dymuno ysmegu.

Ward Raglan

Uned ar gyfer merched gyda deg gwely sengl yw ward Raglan, ac mae ar y llawr daear. Roedd y dodrefn, a'r gosodiadau a ffitiadau yn y ward drwyddi draw wedi'u cynllunio a'u gosod i ddarparu amgylchedd oedd yn addas i gleifion â dementia. Roedd drws ystafell wely pob claf yn unigryw er mwyn hwyluso adnabod a synnwyr cyfeiriad. Roedd yr addurniadau, y gosodiadau a'r arwyddion yn amlwg a chlir yn y ward drwyddi draw, er mwyn cynorthwyo'r cleifion a'u helpu i aros yn annibynnol. Roedd hefyd nifer fawr o luniau wedi'u harddangos ar y waliau cymunedol, ac roedd y rhain yn addas i'r grŵp cleifion ac yn darparu cyfle iddynt hel atgofion mewn modd therapiwtig.

Nodwyd bod un o'r ystafelloedd gwely rhydd yn cael ei defnyddio fel man storio ar gyfer eitemau megis gwelyau sbâr a bocsys gwag.

Roedd lolfa, ystafell fwyta a chyfleusterau toiled cymunedol priodol ar y ward. Roedd lle ar gael y tu allan i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd braidd yn llwm ac nid oedd yn lle croesawgar. Yn yr ardd, darparwyd cyfleusterau ar gyfer y cleifion hynny oedd yn dymuno ysmegu.

Ward Upper Raglan

Uned ar gyfer merched gyda phum gwely sengl yw ward Upper Raglan, ac mae ar y llawr cyntaf yn yr ysbyty. Roedd un o'r cleifion presennol (LSH 583) wedi gwneud difrod sylweddol i'r ward. Wrth gyrraedd ar y noson gyntaf, nodwyd nad oedd y teledu yn y lolfa'n gweithio mwyach, a bod un arall i fod i ddod yn ei le. Cafodd hwn ei symud oddi yno cyn diwedd ein harolygiad. Roedd ffôn talu'r ward wedi'i ddifrodi hefyd, ac felly nid oedd yn gweithio.

Oherwydd ymddygiadau heriol claf LSH 582, roedd yn rhaid i'r staff symud eitemau nad oedd yn sownd oddi yno, a sicrhau bod dim eitemau'n cael eu gadael allan yn y ward, ac roedd hynny'n golygu bod y ward yn llwm iawn o ran golwg. Yn ogystal, roedd y staff wedi cloi rhannau o'r ward, megis y gegin a'r ystafell fwyta, ac roedd hynny'n rhwystro cleifion eraill rhag cael mynediad i'r manau hyn a oedd ar agor yn flaenorol.

Roedd y man y tu allan ar gael i'r cleifion, ac roedd yn cael ei rannu â chleifion ward Raglan. Dywedodd staff y ward wrthym nad oedd claf LSH 582 yn cael awyr iach o gwbl. O drafod â'r staff, roedd yn ymddangos bod dim rheswm pam nad oedd y staff yn cynorthwyo'r claf i fynd i'r ardd.

Nodwyd bod un o'r ystafelloedd gwely rhydd yn cael ei defnyddio fel man storio ar gyfer eitemau megis cadeiriau olwyn, teclynnau codi a llenni.

Argymhelliad

Mae angen adolygu glendid y toiledau ar ward Brecon er mwyn sicrhau eu bod yn lân at ddefnydd y cleifion.

Adolygu'r cyfleusterau storio cyfarpar yn ysbyty St Peter's Hospital drwyddi draw.

Adolygu'r ardd er mwyn darparu amgylchedd therapiwtig.

Mae angen sicrhau bod gosodiadau a ffitiadau newydd yn cael eu rhoi yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi.

Diogelwch

Nodwyd bod gan bob aelod o'r staff ar y wardiau larymau diogelwch a fyddai'n rhybuddio pobl eraill pe byddai argyfwng. Yn ogystal, roedd yr ystadegau a gyflwynwyd o ran hyfforddiant mewn ymyriad corfforol ar gyfer y staff yn amlygu cyfradd cydymffurfio o 100%, a chadarnhaodd y staff eu bod yn diweddarau'r hyfforddiant yn rheolaidd bob blwyddyn.

Roedd ar nifer o'r cleifion angen lefelau arsylwi² uwch oherwydd y risgiau maent yn eu hachosi, oherwydd eu hanghenion corfforol ac iechyd meddwl. Ar y noson gyntaf, gwelsom ddau aelod o'r staff yn arsylwi un claf. Gyda'r nos, mae'r staff yn aros y tu allan i ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn rhoi preifatrwydd iddynt, lleihau gorbryder, a'u helpu i ymlacio. Fodd bynnag, nodwyd bod y staff yn sefyll yr ochr arall i'r coridor, ac nad oedd hynny'n rhoi digon o amser i'r staff gynorthwyo cleifion oedd mewn perygl o gael cwmpau os oeddent yn codi o'u gwelyau.

Yn ystod ein hymweliad, nodwyd bod y lefelau staffio yn briodol ar gyfer nifer y cleifion ar y wardiau, ac roedd hyn yn cynnwys yr aelodau staff hynny oedd yn arsylwi cleifion. Cadarnhaodd y staff nad oedd ganddynt unrhyw broblemau na phryderon ynglŷn â'r lefelau staffio yn yr ysbyty. Fodd bynnag, yn ystod ein sgysiau â'r staff, roedd yn amlwg bod nifer o'r staff yn treulio cyfnodau hir yn arsylwi cleifion ar lefel uwch. Er bod y cleifion yn cael eu cylchdroi ymysg aelodau'r staff, oherwydd bod rhai o'r cleifion yn dueddol o grwydro, roedd y staff yn teimlo eu bod yn treulio rhan helaeth o'u hamser yn ystod y sifft yn cerdded. Roeddent yn gweld hyn yn flinedig, gan eu bod hefyd yn ceisio arsylwi'r cleifion yn ofalus ac yn cadw golwg am nodweddion sy'n sbarduno perygl. Er eu bod yn cydymffurfio â Pholisi Arsylwi Grŵp Gofal Iechyd Ludlow Street, roeddem o'r farn y gallai'r arfer presennol o arsylwi uwch gael effaith ar ba mor wylidwrus yw'r staff yn ystod eu sifft, ac effeithio ar ddiogelwch cleifion a staff.

Gwnaethom adolygu'r polisi digwyddiadau, y polisi diogelu a'r system adrodd am ddigwyddiadau oedd wedi'u sefydlu yn ysbyty St Peter's Hospital. Caiff unrhyw ddigwyddiad ei gofnodi ar system electronig, a chaiff y digwyddiad sgôr ar sail nifer o elfennau. Mae'r sgôr sy'n deillio yn nodi pa broses uwchgyfeirio i'w dilyn, gan gynnwys atgyfeiriadau i Dîm Diogelu'r Awdurdod Lleol. Datblygwyd rhestr wirio ar gyfer atgyfeiriadau diogelu gyda Thîm Diogelu'r Awdurdod Lleol. Caiff y ffurflenni atgyfeirio a'r sgoriau eu monitro bob pythefnos gan weithiwr cymdeithasol annibynnol. Caiff digwyddiadau eu monitro yn rhan o'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol, ac mae'r rhain yn

² Mae arsylwi uwch yn ymyriad a ddefnyddir ar gyfer rheoli ymddygiad cythryblus/treisgar yn y tymor byr, ac er mwyn atal hunan-niweidio, a allai olygu ei bod yn ofynnol i'r staff archwilio claf yn amlach neu eu harsylwi'n barhaus. Gellir gweld mwy o ganllawiau NICE ar <https://www.nice.org.uk/guidance/cg25/chapter/1-Guidance#/observation-and-engagement>

cynnwys manylion am nifer y digwyddiadau, pa gleifion fu'n gysylltiedig â digwyddiadau rhwng claf a chlaf, pa gleifion fu'n gysylltiedig ag ymyriadau corfforol, dadansoddiad o'r math o ddigwyddiad, ac ar ba ward y digwyddodd hynny. Yn ogystal, roedd achosion o gleifion yn baglu ac yn cwmpo yn cael eu monitro yn rhan o'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol.

Argymhelliad

Adolygu'r system o gynnal arsylwadau ar lefel uwch o ran bod aelodau'r staff yn treulio amser hir yn gwneud hynny yn ystod eu sifftiau.

Y tîm amlddisgyblaeth

Gwnaeth pob aelod o'r staff y siaradwyd â nhw sylwadau cadarnhaol ynghylch gwaith y tîm amlddisgyblaeth. Cynhelir cyfarfodydd boreol bob diwrnod, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y tîm amlddisgyblaeth. Roedd yn braf nodi bod y tîm amlddisgyblaeth yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapydd, therapydd lleferydd ac iaith, a dietegydd, ac mae hyn yn gyfraniad buddiol iawn i'r grŵp cleifion yn ysbyty St Peter's Hospital.

Dywedodd y staff wrthym y ceisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan bob tîm disgyblaeth yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth, ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan ei gilydd. Arsylwyd un cyfarfod boreol, ac roedd yn amlwg y cynhelir trafodaethau â phwyslais ar y claf, ac sy'n canolbwyntio ar ofal parhaus ac adferiad y cleifion. Roeddem yn gallu gweld bod perthnasau'r cleifion yn rhan o'r broses cynllunio gofal, a'u bod yn cael eu cynnwys yn y gwahanol agweddau ar ofal.

Ar adeg ein hymweliad, roedd rheolwr yr ysbyty wedi bod yn gweithio yno ers llai na blwyddyn, ac roedd ar y pryd wrthi'n cofrestru'n rheolwr cofrestredig St Peter's Hospital.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun ar wardiau a oedd yn benodol i ddynton neu ferched. Roedd y cleifion yn gallu cloi eu hystafelloedd gwely eu hunain, ond gallai'r staff eu datgloi os oedd hynny'n ofynnol. Roedd gan y cleifion ddigon o le yn eu hystafelloedd gwely i gadw eu heiddo.

Gall cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat. Mae'r ysbyty yn caniatáu i gleifion ddefnyddio'r ffôn yn swyddfa'r nyrsys, ar gyfer cysylltu â chyfreithwyr ac eiriolwyr yn ystod y dydd, ac i gysylltu â theulu a ffrindiau ar ôl y pryd bwyd gyda'r nos. Mae cleifion yn cael defnyddio'r ystafell ymwelwyr i gyfarfod â theulu a ffrindiau yn breifat hefyd.

Trwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod preifatrwydd cleifion yn cael ei gynnal a bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Siaradwyd â pherthnasau'r cleifion, a dywedwyd bod y staff yn garedig, yn drugarog ac yn sylwgar. Roeddent yn teimlo'n ddeallus ynglŷn â gofal eu perthnasau, a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses. The multi-disciplinary team

Therapiau a gweithgareddau cleifion

Roedd bloc gweithgareddau penodol a oedd wedi'i ddatblygu'n dda yn ysbyty St Peter's Hospital. Siaradodd y staff a'r cleifion yn gadarnhaol am yr amrywiaeth o weithgareddau a therapïau sydd ar gael. Roedd ystod amrywiol o weithgareddau ar gael, ac roeddent yn addas i'r grŵp cleifion.

Roedd therapyddion galwedigaethol yn gweithio gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth newydd eu derbyn i ddarparu cynlluniau mwy personol. Defnyddir rhestr gwirio diddordebau i ddal hoff a chas bethau unigolyn, yn ogystal â'u cryfderau a'u gwendidau. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i lunio amserlen benodol ar gyfer pob claf.

Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn gymysgedd o sesiynau unigol a sesiynau grŵp, gan gynnwys clwb brechwast, grŵp papurau newydd dyddiol, peintio, grŵp cerdded, a garddio. Gwelsom y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau myfyrio megis gwrandio ar gerddoriaeth o'r 1960au ac edrych ar hanes Cymru yn rhan o raglen 'Fy Mywyd' yr ysbyty.

Rhaglen electronig sy'n cynorthwyo pobl sydd â phroblemau cofio yw'r rhaglen Fy Mywyd. Gall perthnasau a ffrindiau cleifion, staff a gwirfoddolwyr ei defnyddio hefyd i gyfathrebu'n effeithiol â chleifion, ac mae'n cynnig dull gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bwyd a maeth

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion a'r staff fod y bwyd yn dda. O fewn y tîm amlddisgyblaeth, roedd dietegydd ar gael a oedd yn rhan o broses canfod gofynion dietegol cleifion. Roedd y staff yn gosod llinellau bwrdd a napcynau ar y byrddau bwyd, gan sicrhau bod y prydau bwyd yn cael eu cyflwyno'n daclus. Roedd hyn yn sicrhau bod y profiad bwyta yn rhan o'r gofal therapiwtig.

Mae'r therapydd lleferydd ac iaith yn gweithio gyda'r staff a'r cleifion i asesu gallu cleifion unigol i lyncu, a rhoi cyngor ar anghenion penodol. Roedd ysbyty St Peter's Hospital wedi cael gafael ar ddarparwr arlwygo arbenigol sy'n darparu prydau bwyd arbennig i'r cleifion sy'n byw yn yr ysbyty.

Cynigir amrywiaeth o ddewisiadau i'r cleifion ar gyfer pob un o'r prydau bwyd trwy'r dydd. Ceir lluniau mawr ar y bwydlenni a ddarperir o bob dewis sydd ar gael, ac mae hyn yn cynorthwyo cleifion wrth ddewis

Hyfforddiant

Roedd yr ystadegau a ddarparwyd o ran hyfforddiant gorfodol yn dangos canran uchel o ran cyfradd cydymffurfio, gan gynnwys 100% ar gyfer cwblhau hyfforddiant mewn ymyriad corfforol. Mewn meysydd eraill, roedd y cyfraddau cydymffurfio'n amrywio rhwng 75% a 95%. Caiff hyfforddiant ei fonitro yn ganolog gan reolwr yr ysbyty yn rhan o system 'Coch, Oren, Gwyrdd', a'i adrodd yn ystod y cyfarfod llywodraethu clinigol misol. Nodwyd bod yr ystadegau hyfforddiant wedi'u cwblhau wedi gwella dros y cyfnod ers penodi rheolwr yr ysbyty. Caiff yr hyfforddiant ar gyfer staff banc y sefydliad ei gydgyssylltu'n ganolog gan y darparwr cofrestredig.

Cadarnhaodd y staff fod y sefydliad yn defnyddio pecynnau e-ddysgu yn bennaf ar gyfer ei hyfforddiant, ond y defnyddir arddull ystafell ddosbarth ar gyfer meysydd penodol, gan gynnwys hyfforddiant meddyginiaeth a hyfforddiant cymorth cyntaf. Mae pob aelod o'r staff yn mynychu dyddiau tîm sylfaenol, sy'n galluogi'r staff i fynychu sesiynau grŵp hyfforddiant, derbyn goruchwyliaeth a neilltuo amser ar gyfer e-ddysgu.

Dywedodd y staff wrthym fod y darparwr cofrestredig yn gefnogol o ran hyfforddiant a datblygiad staff, ac yn darparu cyfleoedd i fynychu hyfforddiant allanol a allai gynnwys cymhwyster proffesiynol.

Roedd system oruchwylio wedi'i sefydlu ar gyfer yr holl staff. Cynhelir sesiynau goruchwylio bob pedair wythnos, neu o fewn wyth wythnos os nad yw aelod o staff ar gael oherwydd gwyliau. Dywedodd y staff fod y sesiynau goruchwylio yn berthnasol. Mae'r ysbyty yn cofnodi a logio dyddiadau'r goruchwylio diwethaf, ac mae hyn yn galluogi'r sefydliad i gadw trosolwg o'r broses hon a sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd.

Adolygwyd y ffeiliau recriwtio staff, a nodwyd bod tystiolaeth y cynhelir y broses recriwtio mewn modd agored a theg. Gofynnir am eiridaon, ac am gadarnhad o gymwysterau pan fo hynny'n berthnasol.

Gwnaeth y staff sylwadau canmoliaethus ynglŷn â'r broses sefydlu. Cynhelir hyfforddiant sefydlu pythefnos o hyd yn y brif swyddfa cyn i unrhyw aelod newydd o staff ddechrau yn yr ysbyty. Trefnir hyfforddiant gloywi bob blwyddyn hefyd ar gyfer yr holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys o ran polisïau, gweithdrefnau, a chyfathrebu corfforaethol.

O adolygu ffeiliau staff, gwelwyd na chynhelir archwiliadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer staff presennol, ac mai yn

2010 y cafodd un aelod o staff archwiliad yn ddiwethaf. Yn ystod trafodaethau â'r staff ynglŷn â'r mater hwn, gwelwyd bod y sefydliad yn gwirio cydymffurfiaeth pan fo staff newydd yn cael eu recriwtio. Mae'r sefydliad wedi nodi y bydd yn ysgrifennu at y gweithwyr yn gofyn iddynt gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau o ran eu statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Byddai AGIC yn argymhell y cynhelir archwiliadau ar staff yn rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel arfer da, oherwydd ei fod yn rhoi sicrwydd annibynnol y byddai'n cynyddu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad unigolion.

Mae ysbyty St Peter's Hospital yn cofnodi cwynion cleifion, a chânt eu monitro yn rhan o'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol.

Argymhelliad

Adolygu proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac ystyried a ddylai Gofal Iechyd Ludlow Street ofyn am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhagweithiol pan fod angen eu hadnewyddu.

Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Wrth gyrraedd ysbyty St Peter's Hospital yn ddirybudd ar noson gyntaf yr arolygiad, gwnaethom gyfarfod yn gyntaf â'r uwch nyrs ar sifft. Er bod yr uwch nyrs ar sifft yn gwybod faint o gleifion oedd ym mhob ward yn ysbyty St Peter's Hospital, roedd yn achos pryder i nodi nad oedd yn gallu dweud faint o gleifion oedd yno dan orchymyn y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, neu'n cael eu trin yn anffurfiol. Cymerodd yr uwch nyrs ar sifft gryn amser i gasglu'r wybodaeth hon a'i rhoi i AGIC. Yn hwyrach yn ystod y noson honno, gwnaethom gyfarfod â rheolwr yr ysbyty, ac roedd yn gallu cadarnhau bod system electronig ganolog ar gael i'r staff ei defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd yr uwch nyrs ar sifft y noson honno yn gwybod sut i gael y wybodaeth hon o'r system. Darparodd rheolwr yr ysbyty fanylion cywir o'r system, ond yn anffodus, nid oedd y wybodaeth hon yn cyfateb i'r wybodaeth a ddarparodd yr uwch nyrs ar sifft.

O drafod â'r uwch nyrs ar sifft, sefydlwyd bod yr arolygiad wedi'i gynnal ar ei noson gyntaf yn y gwaith ers dychwelyd o wyliau blynyddol. Mae'n amlwg yn amhriodol bod nyrs sydd newydd dychwelyd ar ôl gwyliau blynyddol yn cael ei phennu'n uwch nyrs ar sifft, gan y byddai o bosibl yn ofynnol i'r nyrs adolygu'r newidiadau i'r grŵp cleifion yn ei ward ar ôl dychwelyd.

Gwnaethom gyfarfod â dau weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n gweithio yn y tri ysbyty gofal iechyd sy'n perthyn i'r cwmni Ludlow Street ac mewn lleoliadau yn y gymuned yn ne Cymru. Roedd yn amlwg bod y tîm sy'n gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi sefydlu prosesau a gweithdrefnau archwilio cadarn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus ynglŷn â gallu'r tîm sy'n gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan fod y ddau aelod o staff ond yn gweithio tridiau'r wythnos, sy'n cyfateb i 1.2 o staff cyfwerth ag amser cyflawn. Dywedwyd wrthym ei bod yn ymdrech i'r tîm gwblhau eu llwyth gwaith o fewn yr amserlen sy'n ofynnol dan y Ddeddf, ac mae'n rhaid iddynt weithio mwy na'u horiau dan contract yn rheolaidd.

Adolygwyd y dogfennau iechyd meddwl oedd wedi'u cadw yn ffeiliau'r cleifion ym mhob un o'r wardiau, a gwelwyd eu bod wedi'u cadw'n wael a'u ffeilio'n anghyson. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i staff y wardiau wirio statws cyfreithiol cleifion ac adolygu gwybodaeth amdanynt. Roedd yn amlwg nad oedd gan weinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl ddigon o amser i gynnal archwiliadau o ddogfennaeth wardiau, nac i sicrhau bod copiâu o bapurau cyfreithiol yn cael eu ffeilio a'u cadw'n briodol ar y wardiau.

Gwelsom hefyd fod oedi ac anawsterau wedi bod o ran sicrhau bod clinigydd cyfrifol cleifion yn cwblhau adroddiadau ar gyfer y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, gwrandawiadau rheolwyr ysbyty, ceisiadau Meddygon a Benodwyd i

Roi Ail Farn, ac adroddiadau i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae hyn yn arfer annerbyniol, ac mae'n amharu ar ddiogelwch a hawliau cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Argymhelliad

Sicrhau bod unrhyw nyrs gofrestrdedig sy'n ymgymryd â swyddogaeth yr uwch nyrs ar sifft yn ymwybodol o sut i gael gafael ar wybodaeth hanfodol ynglŷn â'r grŵp cleifion.

Adolygu'r tîm sy'n gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer Gofal Iechyd Ludlow Street er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o allu o ran amser i ddiogelu cleifion dan gadwad.

Sicrhau bod y clinigydd cyfrifol yn gwneud ei swyddogaethau o fewn yr amserlen a ganiateir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer Cymru cysylltiedig.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Adolygwyd y cynlluniau gofal a thriniaeth a'r dogfennau cynllunio gofal eraill yn ysbyty St Peter's Hospital. Gwnaethom nodi bod y cynlluniau gofal a thriniaeth a adolygwyd gennym ar gyfer cleifion o Gymru yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Fodd bynnag, sylwyd nad oedd pob cynllun gofal a thriniaeth wedi'i lofnodi gan y cydgysylltydd gofal na'r claf neu ei gynrychiolydd.

Oherwydd nad yw'r cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu gweithredu ar gyfer cleifion o Loegr, gwelwyd bod y cynlluniau gofal ar eu cyfer nhw'n llai manwl. Dylai'r sefydliad, mewn ymgynghoriad â chomisiynwyr Lloegr, ystyried ailadrodd y cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer cleifion o Loegr gymaint â phosibl.

Nodwyd ei bod yn ymddangos bod yr asesiadau gofal a'r asesiadau risg ar gyfer claf LSH 582 wedi'u cynnal ar wahân. Nid oedd y canllawiau rheoli ymddygiad a'r canllawiau rheoli ymddygiad seicolegol wedi'u cynnwys yn y cynlluniau gofal. Roedd asesiad hir wedi'i gynnal hefyd o'r defnydd a'r risg ar gyfer canllawiau gwely i'r claf, er nad oedd ar y claf angen canllawiau gwely. Yn ogystal, nid oedd rhai o'r ymyriadau gofal yn ddigon penodol, e.e. nid oedd y cymeriant bwyd a diod yn nodi mesuriadau penodol, ac roedd llofnodion wedi'u hepgor o Siartiau Cofnod Bwyd Cymru Gyfan.

Argymhelliad

Sicrhau bod y cynlluniau gofal a'r dogfennau cysylltiedig ar gyfer y cleifion yn adlewyrchu'r driniaeth ddiweddaraf sy'n cael ei rhoi, a'u bod yn briodol i anghenion y cleifion ac wedi'u cwblhau.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i ysbyty St Peter's Hospital gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn ysbyty St Peter's Hospital yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella
Darparwr Cofrestredig: Grŵp Gofal Iechyd Ludlow Street
Ysbyty: St Peter's Hospital
Dyddiad yr arolygiad: 17, 18 a 19 Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	Mae angen adolygu glendid y toiledau ar ward Brecon er mwyn sicrhau eu bod yn lân at ddefnydd y cleifion.	26(2)(a)	<p>Roedd y toiled a gyfeirir ato wedi'i wneud o ddeunydd resin. Yn anffodus, roedd wedi'i storio y tu allan ac felly roedd y tywydd wedi newid ei liw nes ei fod yn edrych wedi staenio ac yn felyn. Mae'r toiled hwn bellach wedi'i symud oddi yno ac mae un newydd wedi'i osod yn ei le.</p> <p>Mae'r tîm cadw tŷ yn archwilio'r toiledau bob dwy awr trwy gydol y</p>	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau 25 Chwefror 2015

			dydd, ac yn llofnodi ar ôl eu harchwilio.Mae'r staff cynorthwyo'n parhau â'r gwaith hwn trwy gydol y sifft nos hefyd.		
11	Adolygu'r cyfleusterau storio cyfarpar.	26(2)(c)	Mae gennym uned storio fawr yng nghefn SPH. Fodd bynnag, mae angen cyfarpar penodol ar y safle ar gyfer gofal y cleifion.Mae'r rhain yn cael eu cadw mewn lleoedd danglo na ddefnyddir ar hyn o bryd, lle nad all cleifion eraill fynd atynt.Mae arwyddion priodol wedi'u gosod.	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau
11	Adolygu'r ardd er mwyn darparu amgylchedd therapiwtig.	15(1)(a) 26(2)(c)	Mae cynlluniau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd er mwyn i'r lle tu allan yn SPH gael ei ddefnyddio mewn modd mwyaf priodol.	Rheolwr Cofrestredig / Ystadau	Diwedd Mai 2015
11	Sicrhau bod gosodiadau a ffitiadau newydd yn cael eu rhoi yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi yn ward Upper Raglan.	15(1)&(2) 26(2)(b)	Mae dodrefn a gosodiadau newydd wedi'u gosod yn lle'r holl rai eraill gan eu bod wedi difrodi.Pan fo llawer iawn o ddifrod wedi'i wneud, caiff rhestrau blaenoriaeth eu llunio.	Rheolwr Cofrestredig / Ystadau	Yn parhau

13	Adolygu'r system o gynnal arsylwadau ar lefel uwch o ran bod aelodau'r staff yn treulio amser hir yn gwneud hynny yn ystod eu sifftiau.	15(1)(b)	O ystyried cymhlethdod ac ymddygiad heriol y cleifion rydym yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer, bydd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cael eu harsylwi ar lefel uwch.Caiff arsylwadau eu hadolygu bob dydd yn ystod y cyfarfod boreol, er mwyn sicrhau bod y lefelau priodol o arsylwadau'n cael eu pennu ar gyfer unigolion.Gwneir pob ymdrech i sicrhau nad yw staff yn treulio cyfnodau estynedig ar arsylwadau o'r fath gydag unigolyn.	Rheolwr Cofrestredig Rheolwyr yr Uned	Yn parhau
16	Adolygu proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac ystyried a ddylai Gofal Iechyd Ludlow Street ofyn am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhagweithiol pan fod angen eu hadnewyddu.	16(1)(a)	Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i adnewyddu archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.Mae hyn yn cynnwys defnyddio cudd-wybodaeth a datganiadau staff (sy'n cael eu cadw ar ffeiliau'r Adnoddau Dynol) pan fo adnewyddiadau i fod i gael eu	Adran Adnoddau Dynol Yr holl reolwyr	Yn parhau

			gwneud.Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol bod angen hysbysu'r rheolwyr bob tro maent yn cysylltu â systemau cyfiawnder troseddol ar unrhyw lefel, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y contractau a'r dulliau cyfathrebu.Pan fo unrhyw achos neu amheuaeth o bryder, mae'n ofynnol i'r staff gyflwyno archwiliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd, heb ystyried cyfredolrwydd eu harchwiliad diwethaf.		
16	Sicrhau bod unrhyw nyrs gofrestrdig sy'n ymgymryd â swyddogaeth yr uwch nyrs ar sifft yn cael ei hyfforddi i gael gafael ar wybodaeth hanfodol ynglŷn â'r grŵp cleifion.	20(1)(a) 20(2)(a)	Mae protocol uwch nyrs ar sifft a thaenlen wybodaeth am gleifion wedi'u trafod gyda'r holl nyrsys yn ystod sesiynau goruchwyllo un i un gyda'r rheolwr cofrestredig. Archwiliadau ar hap rheolaidd o wybodaeth staff.	Rheolwr Cofrestredig Rheolwyr yr Uned	Diwedd Mai 2015
18	Adolygu'r tîm sy'n gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer Gofal Iechyd Ludlow Street er	20(1)(a)	Mae adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd i ystyried llwyth gwaith, gallu ac anghenion y tîm ar gyfer y	Cyfarwyddwr Meddygol	Diwedd Mai 2015

	mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o allu o ran amser i ddiogelu cleifion dan gadwad.		dyfodol.		
18	Sicrhau bod y clinigydd cyfrifol yn gwneud ei swyddogaethau o fewn yr amserlen a ganiateir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer Cymru cysylltiedig.	20(3)(a) 20(4)	Mae gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn monitro'r maes hwn. Bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cyfarwyddwr Meddygol ynglŷn ag unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol	Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl Cyfarwyddwr Meddygol	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
19	Sicrhau bod y cynlluniau gofal a'r dogfennau cysylltiedig ar gyfer y cleifion yn adlewyrchu'r driniaeth ddiweddaraf sy'n cael ei rhoi, a'u bod yn briodol i anghenion y cleifion ac wedi'u cwblhau.	15(1)(a)-(c) 23(3)(a)	Mae pob cynllun gofal yn cael ei drosi i'r un fformat a ddefnyddir ar gyfer cynlluniau gofal Cymru, ac mae cyfraniad llawn at y broses hon gan y tîm amlddisgyblaeth.	Tîm Amlddisgyblaeth	Diwedd Mehefin 2015